| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Y Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **9 Rhagfyr 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill/ Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Cyllideb 2015/16 - 2016/17 (Cam 2)** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf ac yn cyflwyno Cam 2 rhaglen o arbedion cyllideb i'w cymeradwyo er mwyn darparu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16 ac i barhau'r broses ar gyfer 2016/17.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried y trafodaethau yn y nifer o weithdai cyllideb aelodau i gyflawni'r arbedion o £17.1miliwn sydd ei angen, yn argymell bod yr arbedion a restrir yn Atodiad 1 i'r adroddiad yn cael eu cyflwyno i'r holl aelodau yn y Cyngor i'w cymeradwyo.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Cymeradwyo'r cynigion arbedion Cam 2 a restrir yn Atodiad 1 fel yr argymhellir gan y Cabinet.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

Roedd strategaeth gyllidebol y cyngor wedi nodi bwlch cyllidebol o hyd at £18m dros ddwy flynedd yn flaenorol. Roedd hyn yn cael ei gymell yn bennaf gan ddangosyddion y byddai setliad cyllid y Cyngor yn cael ei dorri o 4.5%. Cyhoeddwyd setliad drafft y Llywodraeth Leol ar 8 Hydref. Mae'r Setliad yn nodi y bydd y gostyngiad ariannol i gyllideb y cyngor yn 3.7% sy'n cyfateb i £5.3m. Gyda'r costau y mae'n rhaid i'r cyngor eu hariannu, megis cynnydd mewn cyflog, pensiynau ac ynni, mae bwlch y gyllideb ar gyfer 2015/16 yn awr tua £8.3m a disgwylir y bydd tua £8.8m yn 2016/17 – cyfanswm o £17.1m.

Gelwir y broses o nodi'r arbedion sydd eu hangen i ddarparu'r gyllideb yn Rhyddid a Hyblygrwydd ac fe ddechreuodd ym mis Ebrill. Roedd yn cynnwys adolygiad o bob gwasanaeth a gweithgaredd yn y gwasanaethau a dadansoddiad o gyllideb refeniw cyfan y Cyngor. Roedd y broses yn cynnwys cyfres o weithdai cyllideb trwy'r dydd gydag aelodau etholedig lle y cyflwynwyd dadansoddiad o'r gyllideb, ynghyd â chynigion ar gyfer arbedion o bob gwasanaeth. Hyd yn hyn, cynhaliwyd naw gweithdy gyda'r degfed wedi'i drefnu ar gyfer 12 Rhagfyr. Bydd gweithdai pellach i ganolbwyntio ar 2016/17 yn cael eu cynnal ym mis Chwefror a Mawrth.

Yn y gweithdai, gofynnwyd i'r aelodau ystyried cynigion o dan y categorïau 'mabwysiadu', 'datblygu' neu 'ohirio'. Ym mis Medi, cymeradwyodd y cyngor gyfres o gynigion gyda chyfanswm o £3.7m yn 2015/16 a £870mil yn 2016/17 oedd yn cynnwys eitemau yr oedd yr aelodau wedi nodi y byddent yn eu mabwysiadu yn ystod y pedwar gweithdy cyntaf yn yr haf. Roedd hyn yn cwblhau Cam 1 proses y gyllideb.

Cyflwynwyd nifer o eitemau eraill yng ngweithdai Cam 1 a ddynodwyd fel 'datblygu' – lle y gofynnodd yr aelodau i'r swyddogion ddarparu mwy o wybodaeth neu fanylion ynglŷn â'r cynigion. Daeth y rhain yn ôl i weithdai Cam 2 a gynhaliwyd yn yr hydref ac mae'r rhai yr oedd y rhan fwyaf o'r aelodau oedd yn bresennol yn fodlon eu mabwysiadu wedi'u cynnwys yn Atodiad 1. Cyfanswm y cynigion oedd £3.6m yn 2015/16 ac £1.8m yn 2016/17. Mae manylion pellach i egluro cynigion Cam 2 wedi'i gynnwys yn y darn diwygiedig o bapur Torri'r Brethyn a gyhoeddwyd i'r cyhoedd, yr aelodau a'r staff yn ddiweddar, yn Atodiad 2.

Mae graff, yn Atodiad 3, sy'n dangos effaith y cynigion arbedion sy'n cael eu cynnig i'w cymeradwyo yng Ngham 2, ynghyd â'r rhai a gytunwyd yng Ngham 1. Mae'r graff yn tybio bod holl gynigion Cam 2 yn cael eu cymeradwyo. Mae crynodeb o broses y gyllideb wedi'i gynnwys yn Atodiad 4 er gwybodaeth.

Bydd Cam 3 proses y gyllideb yn ystyried y cynigion terfynol i gydbwyso cyllideb 2015/16, gan gynnwys opsiynau ar gyfer Treth y Cyngor a defnyddio unrhyw gronfeydd wrth gefn. Bydd y materion hyn yn cael eu trafod yng ngweithdy'r aelodau ym mis Rhagfyr cyn eu cymeradwyo'n derfynol ym mis Chwefror. Bydd Cam 3 y broses hefyd yn parhau i ddatblygu opsiynau arbedion ar gyfer 2016/17.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllidebau'r cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae angen i'r cyngor sicrhau arbedion o tua £17.1m dros y ddwy flynedd ariannol nesaf.

**7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Bydd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei ystyried a'i gwblhau gan wasanaethau ar gyfer yr holl gynigion perthnasol. Bydd crynodeb yr asesiadau o effaith yn nodi os oes angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb llawn.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Bu ymgynghori sylweddol o gwmpas proses y gyllideb ac mae wedi cael ei ystyried gan CET, UDA, Briffio Cabinet a chyfarfodydd Briffio’r Cyngor. Mae dau o'r cynigion unigol hefyd wedi cael eu hystyried gan bwyllgorau craffu - y rhain yw teledu cylch cyfyng (PPP08) a Gwasanaethau Darparu (ABS02). Mae'r cynnig olaf hefyd wedi bod yn destun Grŵp Gorchwyl a Gorffen penodol a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad i archwilio opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau gofal o ansawdd uchel.

Erbyn diwedd y broses, bydd yna o leiaf ddeg gweithdy cyllideb wedi’i gynnal gydag aelodau etholedig er mwyn archwilio cyllidebau gwasanaethau ac ystyried cynigion cyllidebau.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru newydd gwblhau adolygiad o gynllun ariannol y Cyngor. Maent wedi dod i'r casgliad canlynol:

- Mae gan y Cyngor hanes da o ran cyflawni arbedion a nodwyd o fewn blwyddyn yn erbyn y camau gweithredu a gymeradwywyd
- Mae cynlluniau a threfniadau’r Cyngor yn y dyfodol i sicrhau arbedion yn addas i'r diben ac yn cael eu rheoli’n effeithiol
- Nid oes cynigion ar gyfer gwella nac argymhellion yn sgil yr adolygiad hwn.

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol rôl oruchwylio ac wedi cael adroddiadau i bob un o'i gyfarfodydd ers mis Ebrill. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, mae cofnodion y Pwyllgor yn nodi'r canlynol: *“Er mwyn profi a cheisio sicrwydd ynghylch tryloywder proses y gyllideb mae’r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am opsiynau amgen a ystyriwyd yn ystod yr adolygiad o Hawliau Lles, fel enghraifft gynrychioliadol. Cytunodd yr Aelodau hefyd y dylid cynnwys cynnig yr Hawliau Tramwy”.* Ystyriwyd y ddau gynnig yng Ngham 1.

Yn ddiweddar darparodd yr Aelod Lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, a fynychodd nifer o'r gweithdai cyllideb, yr adborth canlynol ar y broses:

"Fy marn bersonol, o ran y gweithdai a fynychais yw fod y broses yn ymddangos yn un rhesymegol ac ystyrlon, roedd y dogfennau a ddarparwyd ar gyfer pob cam yn glir a pherthnasol. Roedd y trafodaethau yr arsylwais i arnynt yn dyst i'r uchod gan eu bod ar y cyfan yn rhai pwyllog ac ystyriol. Mae'r Aelodau a'r Swyddogion a ddyfeisiodd ac a weithredoedd Camau 1 a 2 o'r broses i'w canmol am eu gwaith."

Mae cynnig Cam 2, PPP08 (CCTV) yn cyfeirio at y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 20 Tachwedd fel rhan o broses y gyllideb, a nododd y Pwyllgor y pwyntiau a’r atebion canlynol:

***“Teledu Cylch Cyfyng a Gwasanaeth y tu Allan i Oriau Arferol:*** *rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor, oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, bod natur cynnwys yr adroddiad penodol hwn wedi newid ers y cais gwreiddiol ddeuddeg mis yn ôl,*

*sef rhoi manylion am opsiynau ar gyfer buddsoddi yn y Gwasanaeth teledu cylch cyfyng yn y dyfodol i amlinellu cynigion ar gyfer dadfuddsoddi yn y Gwasanaeth ac archwilio opsiynau ar gyfer trosglwyddo ei ddarpariaeth i drydydd parti. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r cynnig a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ym mis Rhagfyr yn tynnu cyllid y Cyngor ar gyfer y gwasanaeth yn weithredol o fis Ebrill 2016. Byddai hyn yn galluogi opsiynau ar gyfer archwilio ffyrdd amgen o ddarparu'r gwasanaeth a'u trafod yn ystod 2015/16, gyda'r bwriad o ddod i gytundeb gyda thrydydd parti (neu grŵp o randdeiliaid) i hwyluso trosglwyddiad di-dor o offer a sefydlu gwasanaeth amgen o safon erbyn mis Ebrill 2016. Byddai'r dadfuddsoddiad penodol hwn yn y Gwasanaeth yn effeithio ar y Rhyl, Prestatyn a Rhuddlan yn unig – mae trefi eraill yn y Sir eisoes wedi cael darpariaeth CCTV amgen. Aelodau o'r Pwyllgor:*

- *Gwnaethant bwysleisio pwysigrwydd proses drosglwyddo wedi'i reoli gan y Gwasanaeth cyfredol i ddarparwr arall;*
- *cydnabod nad oedd y gwasanaeth newydd yn debygol o fod yn wasanaeth tebyg, ond y dylai fod yn wasanaeth o ansawdd da;*
- *cefnogi'r cynnig i sefydlu gweithgor aml-asiantaeth i lunio a gweithredu strategaeth ymadael. Yn ogystal ag edrych ar y ddarpariaeth CCTV cyfredol mewn mannau cyhoeddus sydd ar gael yn y tair tref a enwir, gallai edrych ar y defnydd cymunedol ehangach CCTV drwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC), archwilio gallu'r partneriaid ar y cyd i ddarparu gwasanaeth teledu cylch cyfyng a ffrydiau ariannu posibl, e.e. Arian y gronfa Troseddau o Elw Comisiynydd yr Heddlu ar gyfer ariannu unrhyw wasanaeth amgen;*
- *awgrymu y dylai'r Pwyllgor Craffu (Pwyllgor Craffu Partneriaethau o bosibl fel y Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anhrefn dynodedig) fonitro datblygiad y strategaeth ymadael a'i roi ar waith, a throsglwyddo'r Gwasanaeth i drydydd parti;*
- *pwysleisiodd yr angen am friffio'r wasg a'r cyfryngau'n rheolaidd, os yn bosibl yn bersonol, ar fanylion y cynigion i'r gyllideb er mwyn sicrhau bod y cynigion yn cael eu hadrodd yn ffeithiol i breswylwyr*

*Penderfynodd y Pwyllgor:*

*(I) bod y sylwadau uchod mewn perthynas â'r prosiect Rhyddid a Hyblygrwydd a chynigion sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng yn cael ei adrodd i'r Cyngor Sir ar 9 Rhagfyr;*
*(Ii) bod y cynnydd a wnaed wrth ddyfeisio, sicrhau a gweithredu strategaeth ymadael, ac atebion amgen ar gyfer cyflwyno Gwasanaeth teledu cylch cyfyng yn y dyfodol, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu maes o law ar gyfer ei archwilio"*

O ran y cynnig i ddileu neu leihau y cymorthdaliadau ar gyfer trafnidiaeth cyhoeddus (H&E01), mae'r Aelod Arweiniol dros Barth y Cyhoedd wedi gofyn i ganlyniadau'r ymgynghoriad gael eu darparu ar gyfer Aelodau. Mae modd gweld adroddiad sydd yn amlinellu canlyniadau yr ymgynghoriad trwy ddilyn y ddolen gyswllt canlynol:

https://moderngov.denbighshire.gov.uk/ecSDDisplay.aspx?NAME=SD651&ID=651&RPID=1460761&sch=doc&cat=13536&path=13536&LLL=0

Ar 21 Hydref, bu cyfarfod rhwng Arweinwyr y Grwpiau i ystyried a chymeradwyo ymarfer ymgysylltu cyhoeddus y cyngor, 'Torri Ein Brethyn' a chytunwyd i geisio barn y cyhoedd am fis. Cafodd yr ymarfer ei lansio ar 27 Hydref a daeth i ben ar 27 Tachwedd 2014.

Diben yr ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd oedd cynnwys y cyhoedd mewn trafodaeth am sut y byddai'r toriadau arfaethedig yn effeithio arnynt hwy a'u cymunedau a’r hyn y gellir ei wneud i leihau'r effaith honno. Roedd y cyflwyniad i'r ymarfer yn gwbl glir nad oedd y cyngor yn ymgynghori ynghylch a oedd y toriadau hyn yn angenrheidiol. Mae 822 o ymatebion i'r arolwg a dros 5,000 o ymweliadau â'r wefan yn ymateb da gan y cyhoedd. Mae dadansoddiad o ganlyniad yr ymarfer hwnnw ynghlwm fel **Atodiad 5**. Mae’n cynnwys dadansoddiad o'r awgrymiadau gan y cyhoedd a sylwadau perthnasol Pennaeth y Gwasanaeth ar yr ymatebion hynny.

Er bod y broses wedi cau ar gyfer cynigion cam 1 a cham 2, mae swyddogion yn cynnig bod y ddadl 'Torri Ein Brethyn' yn parhau hyd nes y daw’r gyllideb derfynol ym mis Chwefror 2015. Bydd hyn yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd barhau i fynegi eu barn ar unrhyw gynigion pellach y gellid eu gwneud er mwyn mantoli cyllideb y cyngor a hefyd ar gyfer ystyried unrhyw sylwadau ychwanegol cyn rhoi penderfyniadau ar waith.

Yn ogystal â'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd, mae'r cyngor wedi rhoi gwybod i bob cyngor Tref a Chymuned ynghylch y toriadau arfaethedig ac mae wedi cynnal cyfarfod ar gyfer yr holl gynghorau er mwyn trafod y cynigion. Mae trafodaethau parhaus rhwng rhai o wasanaethau'r cyngor sir a rhai cynghorau tref ynghylch effaith y cynigion ac a fyddai'r cynghorau tref yn ystyried ariannu rhai o'r gweithgareddau os gwneir y toriadau ai peidio. Mae trafodaethau hyn yn mynd rhagddynt.

Mae'r cyngor wedi ymgynghori â'i bartneriaid, drwy’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd, a, lle y bo’n ofynnol, wedi mynychu cyfarfodydd i egluro'r manylion y tu ôl i unrhyw un o'r cynigion. Er enghraifft, bu cyfarfod rhwng un o gyfarwyddwyr corfforaethol y cyngor a Phrif Swyddog Gweithredol Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych i drafod y potensial ar gyfer y trydydd sector i gymryd lle unrhyw rai o'r toriadau, a bu cyfarfod rhwng cydweithwyr yr Heddlu ac uwch swyddogion y cyngor i ddechrau archwilio dewisiadau eraill posibl i doriad y teledu cylch cyfyng, os caiff ei wneud. Bydd y trafodaethau hyn yn parhau os bydd y cynigion yn datblygu’n benderfyniadau.

Mae pob aelod o staff wedi cael gwybod am y broses o bennu'r gyllideb a, lle y bydd cynigion yn dod yn benderfyniadau, bydd y staff yr effeithir arnynt yn cael ymgynghoriaeth lawn, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y Cyngor.

Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy’r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Cytunwyd ar broses ar gyfer ymgysylltu â staff a'u cynrychiolwyr TU yn ystod

Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol ym mis Medi ac fe gedwir at hyn. Cynigiodd yr un broses y cyfle hefyd i'r Undebau Llafur wneud sylwadau ffurfiol ar gynigion y gyllideb cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cyngor. Cynhaliwyd y cyfarfod i ystyried y cynigion sydd yn y papur hwn ar 1 Rhagfyr. Mae crynodeb o'r pwyntiau a wnaed yn cael ei lunio a bydd yn cael ei rannu gyda'r holl Aelodau cyn cyfarfod y Cyngor ar 9 Rhagfyr.

Mae asesiadau effaith ar gyfer pob cynnig ar gael fel papurau ategol ar y ddolen gyswllt ganlynol:

https://moderngov.denbighshire.gov.uk/ecSDDisplay.aspx?NAME=SD650&ID=650&RPID=1460146&sch=doc&cat=13536&path=13536&LLL=0

Darperir adroddiad pellach i amlinellu effaith gyffredinol y cynigion o ddau gam cyntaf y broses gyllideb fel Atodiad 6.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae hyn yn parhau i fod yn broses hynod heriol ac mae'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Bydd cymeradwyo cynigion yr adroddiad hwn yn golygu mai'r bwlch sy'n weddill yn y gyllideb ar gyfer 2015/16 yw tua £1m a bydd cynigion i fynd i'r afael â hyn yn cael eu hystyried yng ngweithdy mis Rhagfyr. Fodd bynnag, mae'r broses wedi bod yn un heriol i bawb sy'n rhan ohoni, y canlyniad yw y canfuwyd cynigion i gyflawni 88% o'r gostyngiadau i'r gyllideb er mwyn ei darparu yn 2015/16 yn ystod dau gam cyntaf proses y gyllideb. Mae ymrwymiad a chefnogaeth barhaus yr aelodau etholedig a'r gwasanaethau yn y broses yn hanfodol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu â chyflawni strategaeth gyllideb effeithiol yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y dyfodol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.